Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

# Cyfrifon Adnoddau Adrannol 2002-2003

## RHAGAIR I'R CYFRIFON

### Pwrpas a dull gweithredu

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fe'i harweinir gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi a cheir Arolygwyr Ei Mawrhydi a gweinyddwyr ar ei staff. Mae'r staff wedi'u lleoli yn y Pencadlys yng Nghaerdydd ac mewn swyddfa leol yng Ngogledd Cymru.

Mae gan Estyn gyfrifoldebau statudol i arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Golyga hyn nad yw ei weithgareddau craidd yn newid o'r naill flwyddyn i'r llall, oni bai bod newid yn y ddeddfwriaeth. Bob blwyddyn, felly, mae Estyn yn cynnal cylch arolygu o:

Leoliadau meithrin nas cynhelir;
Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig;
Unedau cyfeirio disgyblion;
Awdurdodau addysg lleol (ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio fel arfer);
Sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon;
Sefydliadau addysg bellach;
Darparwyr hyfforddiant yn y gwaith;
Addysg oedolion;
Gwasanaethau ieuenctid; a
Chwmnïau gyrfaoedd.

Yn ystod 2002-2003, mae Estyn wedi parhau i arolygu elfennau addysg, gyrfaoedd a hyfforddiant y Fargen Newydd yng Nghymru yn ogystal, yn unol â Memorandwm Dealltwriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd yn rhoi cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru a ddaw o dan y cylch gwaith a roddir i'r Prif Arolygydd yn flynyddol gan y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes. Y cylch gwaith yw ffocws gweithgareddau staff Estyn am ei fod yn clustnodi'r gwaith y mae angen ei wneud yn y flwyddyn i gefnogi'r blaenoriaethau gweinidogol ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Mae dulliau arolygu Estyn yn cael eu nodi yn y fframweithiau a'r arweiniad a gyhoeddir. Mae'r dogfennau hyn, sy'n helpu sicrhau ansawdd a chysondeb arolygiadau, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n gyson.

### Prif nod ac amcanion

Nod Estyn, yn unol â'i Gynllun Blynyddol ar gyfer 2002-2003, yw codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a chynnig cyngor, i gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Cynllun i Gymru 2001, ac fel a ategir gan ddogfennau eraill gan gynnwys 'Y Wlad sy'n Dysgu' ac 'Ymestyn Hawl'.

Amcanion Estyn ar gyfer 2002-2003 yn y cynllun oedd:

- arolygu darparwyr unigol addysg a hyfforddiant, a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru at safon uchel; a

- chynnig cyngor annibynnol a chadarn, ar sail tystiolaeth arolygiadau, i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w chynorthwyo wrth ffurfio ac arfarnu polisi addysg a hyfforddiant.

**Ariannu**

Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddo, dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Diwyg y cyfrifon**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac yn unol â'r cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan Estyn yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

Dim ond asedau, rhwymedigaethau ac alldro ariannol Estyn y mae'r cyfrifon hyn yn eu dangos.

**Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn**

Mae'r Datganiad o'r Costau Rhedeg yn dangos cost rhedeg net o £8,553,000 am y flwyddyn (2001-02: £8,385,000) sy'n gynnydd cymharol fach o 2% yn y gwariant net o gymharu â 2001-2002.

Un o dargedau ariannol allweddol Estyn yw cadw gwariant o fewn y gyllideb. Yn 2002-2003 mae'r cyfrifon adnoddau hyn yn dangos tanwariant o £2,710,000. I raddau helaeth, mae'r tanwariant hwn (gweler Atodlen 1) oherwydd:

- nad yw prisiau arolygiadau ysgolion a gontractiwyd allan wedi codi mor gynnar a chymaint â'r disgwyl;
- nid yw'r holl swyddi gweigion staff wedi'u llenwi yn ystod y flwyddyn, ar adeg pan oedd Estyn yn cael ei ariannu ar gyfer cynllun ehangu staff a oedd ei angen i'n galluogi i gymryd gwaith ychwanegol. Arweiniodd hyn yn ei dro at rywfaint o waith a phrosiectau yn llithro i mewn i 2003-2004; ac
- mae costau ailgyflunio adeiladau presennol Estyn a'r gost o osod offer mewn adeiladau newydd eu caffael wedi llithro i mewn i 2003-2004.

Mae'r fantolen fel ag yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn, 31 Mawrth 2003, yn dangos rhwymedigaethau net o £709,000 (2001-02: £263,000). Mae rheolaeth dynach ar arian yn ystod blwyddyn ariannol 2002-2003 wedi lleihau swm yr arian yn y banc neu mewn llaw ar 31 Mawrth 2003, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd ymddangosiadol yn y diffyg ar y fantolen ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2002-2003. Nid yw'n beth anghyffredin i fantolen Estyn ddangos diffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol, oherwydd lefel uchel y credydwyr. Mae'r credydwyr hyn yn ganlyniad arferol i drefniadau contractio arolygiadau ysgolion Estyn, gan na thelir am gontract tan y bydd Estyn wedi derbyn adroddiad yr arolygiad. Dan y gofynion statudol, gellir derbyn yr adroddiad hyd at 45 diwrnod wedi cwblhau'r arolygiad. Gan y bydd nifer yr arolygiadau ysgolion yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, mae hyn yn anorfod yn effeithio ar

ffigyrau'r credydwyr, ac mae hyn yn creu gorgyffwrdd rhwng blynyddoedd ariannol yn aml. Bydd Estyn yn derbyn arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i dalu am y rhwymedigaethau hyn pan fyddant yn aeddfedu ym mlwyddyn ariannol 2003-2004. Nid yw lefel credydwyr Estyn wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd.

Ni fu unrhyw newidiadau pwysig yng ngwerth Asedau Sefydlog yn ystod y flwyddyn.

**Adolygu gweithgareddau**

Adroddir am ganfyddiadau arolygiadau Estyn bob blwyddyn yn 'Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru'. Cyflwynwyd y ddogfen ddiweddaraf gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2003. Mae'r adroddiad ar gael oddi wrth y Llyfrfa.

Yn ystod 2002-2003, mae gwaith pellach wedi'i wneud i ddatblygu elfennau, systemau a phrosesau cefnogol wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r trefniadau arolygu newydd a fydd yn llawn weithredol o fis Medi 2004. Cynhaliwyd adolygiad o ofynion rheoli data Estyn hefyd i gefnogi cyflwyno'n llawn y trefniadau arolygu newydd. Cychwynnwyd ar y gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno cylch arolygu ysgolion annibynnol, a sefydlwyd fforwm gyda'r holl bartneriaid perthnasol.

Cafodd cynllun Cydraddoldeb Hiliol Estyn ei gymeradwyo, ar ôl ei lunio mewn pryd ac yn unol â Chôd Ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Cynhaliwyd hyfforddiant ar hwn ac agweddau eraill ar amrywiaeth a chyfle cyfartal gyda staff ac arolygwyr ar gontract. Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Estyn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2002-2003.

Cynhaliwyd adolygiad o'r strwythur staffio yn ogystal, er mwyn galluogi Estyn dderbyn gwaith ychwanegol o 2003-2004. Parhawyd â'r gwaith ar Lywodraeth Gorfforaethol ac ar ddadansoddi a rheoli risg yn benodol.

**Targedau gweithredol**

Gosododd Estyn nifer o dargedau penodol i'w cyflawni yn y flwyddyn ariannol. Dylanwadodd gylch gorchwyl gan y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar rai ohonynt. Cyhoeddir y perfformiad yn erbyn dangosyddion yng Nghynllun Blynyddol 2002-2003 ar wefan Estyn.

**Datblygiadau yn y dyfodol**

Yn ystod 2003-2004 bydd hyfforddiant arolygwyr ar gyfer cyflwyno trefniadau arolygu newydd yn symud ymlaen tuag at ei gwblhau. Bydd recriwtio i swyddi newydd yn parhau i mewn i 2005-2006 i gefnogi cyflwyno cylch arolygu ysgolion annibynnol (gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol), gweithgarwch cynyddol arolygu anghenion arbennig a'r gwaith sy'n ehangu.

Bydd adeiladau yng Nghaerdydd yn cael eu hailgyflunio, a bydd offer yn cael ei osod yn yr adeiladau ychwanegol a gaffaelwyd yn ddiweddar, yn ystod 2003-2004.

Bydd rhaglen gwella busnes Estyn ar gyfer 2003-2004 a thu hwnt yn cynnwys:

- parhau i gydymffurfio â deddfwriaeth ar gydraddoldeb hiliol, anabledd a chyfle cyfartal;

- ymgymryd â gwaith pellach ar amrywiaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth y dyfodol ym meysydd tueddiad rhywiol, crefydd ac oed;
- adeiladu ar ein hail-achrediad fel Buddsoddwr mewn Pobl;
- parhau i gryfhau'r fframwaith rheoli risg ar lefelau strategol, gweithredol a thîm;
- adolygu'r system gwerthuso perfformiad;
- cyflwyno systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu cadarn ond hyblyg i gefnogi ehangu parhaus yr ochr fusnes, ac yn benodol, y trefniadau arolygu newydd; a
- chynnal hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff mewn rheoli prosiectau;

Cewch fanylion pellach am flaengynlluniau Estyn yng Nghynllun Corfforaethol Estyn ar gyfer 2003-2006 sydd ar gael ar y wefan (www.estyn.gov.uk).

**Uwch swyddogion**

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Miss S Lewis | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo |
| Mr M G Haines | Pennaeth Adran Arolygu: Addysg Cyn-16 a'r Blynyddoedd Cynnar (hyd 31 Rhagfyr 2002) |
| Miss H J Anthony | Pennaeth Adran Arolygu: Addysg Cyn-16 a'r Blynyddoedd Cynnar (o 3 Chwefror 2003) |
| Mrs S Howells | Pennaeth Adran: Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mrs E R Kidd | Pennaeth Adran Arolygu: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 |

**Penodi uwch swyddogion**

Penodwyd pob aelod o'r Bwrdd yn unol â Chôd Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Penodwyd Prif Arolygydd Ysgolion Ei Mawrhydi yng Nghymru ar 1 Mehefin 2002 am dymor arall o bum mlynedd trwy Orchymyn mewn Cyngor dan adran 4 Deddf Arolygu Ysgolion 1996. Nodir y rheolau penodi yng Nghôd Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

**Taliadau i aelodau'r Bwrdd Rheoli**

Pennir taliadau Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan baragraff 3 Atodlen 1 Deddf Arolygu Ysgolion 1996. Mae'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth Gweinidog y Gwasanaeth Sifil.

Pennwyd taliadau gweddill aelodau'r Bwrdd Rheoli gan Bwyllgor Taliadau Estyn dan gadeiryddiaeth Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, gydag aelod annibynnol, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar daliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Rhoddir manylion pellach am daliadau yn Nodyn 2 i'r cyfrifon hyn.

## Cynllun pensiwn

Cynhwysir gweithwyr presennol a chyn-weithwyr yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sy'n anghyfrannol a heb ei gyllido (gweler Nodyn 1.9 i'r cyfrifon hyn), ac mae datganiad ar wahân ar gyfer y cynllun PCSPS cyfan.

## Cyfle cyfartal

Polisi Estyn yw y dylai pob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeiswyr am swydd na gweithwyr gael eu trin yn llai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tuedd rhywiol, oed, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gweithio e.e. gweithio rhan-amser, ac ni ddylai unrhyw unigolyn fod dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir profi bod modd eu cyfiawnhau.

Mae Estyn yn dilyn Côd Ymarfer y Gwasanaeth Sifil ar gyflogi pobl anabl, a nod y côd hwnnw yw sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd, a bod mynediad i waith a datblygu gyrfa o fewn Estyn yn seiliedig yn unig ar allu, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y gwaith.

## Lledaenu Gwybodaeth

Mae Estyn yn sefydliad rhagweithiol sy'n eirioli rhannu gwybodaeth a syniadau, ac mae'n ceisio manteisio'n llawn ar dechnoleg fodern i gyflawni'r nodau hyn. Mae gan Estyn wefan sy'n gweithredu'n llawn, ac mae ynddi amrywiaeth o gyhoeddiadau sy'n cynnwys cyngor ac arfer dda. Mae cyhoeddiadau ar y wefan hon yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau ac yn cynnwys amrywiaeth o bynciau ym maes addysg a hyfforddiant, a safle Mewnrwyd sydd ar gael i bob aelod o staff. Mae grwpiau rheoli strwythuredig wedi'u sefydlu ar lefel strategol a gweithredol. Cynhelir cyfarfodydd corfforaethol a grŵp yn gyson, a chaiff gwybodaeth a ddaw yn eu sgîl ei rhaeadru ledled y sefydliad drwy'r sianelau priodol.

## Polisi Talu

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu dewis o wasanaethau ariannol i Estyn, gan gynnwys prosesu taliadau i gyflenwyr. Dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, mae'n ofynnol i'r Cynulliad dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r nwyddau neu'r gwasanaethau neu'r anfoneb ddilys ddod i law, pa un bynnag sy'n cyrraedd hwyraf. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 88.9% o bob taliad felly yn 2002 – 2003 (2001-2002: 84.7%). Ni thalwyd unrhyw log, ac nid oedd unrhyw log yn daladwy, ar gyfer trafodion yn 2002-2003.

## Archwilwyr

Archwilir cyfrifon Estyn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 97 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy’n effeithio ar y ddealltwriaeth o’r datganiadau ariannol hyn.

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo**

**28 Tachwedd 2003**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFO

Dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys, gan roi manylion yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn, a'r defnydd a wnaeth Estyn o adnoddau yn ystod y flwyddyn.

Caiff y cyfrifon adnoddau eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn, alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifo Estyn, gyda chyfrifoldeb dros baratoi cyfrifon Estyn a'u trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Swyddog Cyfrifo yn cydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn benodol:

- glynu wrth y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- ffurfio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, fel a nodwyd yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Nodir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn y ddogfen Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n gyfrifol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cynorthwyo Estyn i gyflawni'i bolisïau, ei nodau a'i amcanion, a diogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi yn fy llythyr penodi.

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw adnabod a rheoli'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion, yn hytrach na'i ddiddymu; dim ond mesur rhesymol o sicrwydd y bydd yn effeithiol y gall roi felly, ac nid sicrwydd pendant.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i adnabod y risgiau mwyaf a allai rwystro Estyn rhag cyflawni'i bolisïau, ei nodau a'i amcanion, arfarnu natur a graddfa'r risgiau hynny, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r broses hon wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2003, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n unol ag arweiniad y Trysorlys.

Yn ystod 2002-03 mae Estyn wedi parhau i adeiladu ar y fframwaith rheoli risg a'i wella. Fel a ragfynegwyd yn y rhagair i gyfrifon y llynedd, cyhoeddodd Estyn ddogfen bolisi ar reoli risg i bob aelod o staff, gan wneud y ddogfen ar gael i'r Pwyllgor Archwilio. Mae Estyn hefyd wedi parhau i ymgorffori rheoli risg yn ei waith yn y dulliau canlynol:

Mae system wedi'i sefydlu'n llawn bellach lle mae prif risgiau strategol a chorfforaethol yn cael eu rheoli yn ystod y flwyddyn, a chynnydd yn cael ei adolygu bob chwarter. Mae risgiau tîm yn cael eu nodi drwy ddefnyddio pecyn sicrhau rheolaeth a gyflwynwyd ar ddiwedd 2002-2003. Bob blwyddyn, mae pob risg yn cael ei adolygu a risgiau newydd yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu o fewn graddfa amser sy'n cysylltu â systemau cynllunio Estyn a datblygiad parhaus strategaethau archwilio. Mae'r prosesau hyn yn rhan annatod o arferion gweithio cyffredin Estyn erbyn hyn, ar lefel strategol a gweithredol.

Bydd gwaith i ddatblygu'r pecyn sicrhau rheolaeth ymhellach yn parhau ym mhob tîm yn ystod 2003-2004. Bydd hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff mewn rheoli prosiectau, gan gynnwys elfen o adnabod a rheoli risgiau mewn prosiectau, yn cael ei gynnal yn ystod 2003-2004.

Mae gan Estyn Bwyllgor Archwilio gyda dau aelod annibynnol i gynghori Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar ddigonolrwydd y trefniadau rheoli ac archwilio corfforaethol (yn fewnol ac allanol).

Mae Uned Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i Estyn dan delerau cytundeb lefel gwasanaeth. Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn gweithio i safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Yn ystod 2002-03, parhaodd yr Uned Archwilio Mewnol i gynnal adolygiadau o reolaeth risg, trefniadau Arolygu Ôl-16 ac adolygiad o'r amgylchedd rheoli Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn Estyn. Mae'r adolygiadau hyn, ynghyd â chanlyniadau asesiadau strategol a chorfforaethol Estyn ei hun, yn parhau i ddylanwadu ar ddatblygiad strategaeth archwilio mewnol dreigl tair blynedd, yn cynnwys y cyfnod hyd at 2007 yn y fersiwn ddiweddaraf. Mae gwaith a gwblhawyd gan yr Uned Archwilio Mewnol yn arwain at adroddiadau sy'n cynnwys barn annibynnol Pennaeth yr Uned Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol,

ynghyd ag argymhellion i mi ar gyfer gwelliant. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu rhannu â Phwyllgor Archwilio Estyn.

Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei ddylanwadu gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo**
**28 Tachwedd 2003**

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 12 i 27 dan baragraff 6 o Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i newidiwyd drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog, a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 17 a 18.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 7, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Atodlen 6 (5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn ôl gofynion hynny ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, yn cael eu pennu drwy statud a'u llywio gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn ôl gofynion hynny. Hefyd, rwyf yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Estyn wedi cadw cofnodion cywir, neu os nad wyf i wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 8 a 9 yn dangos bod Estyn wedi cydymffurfio â chanllaw'r Trysorlys "Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar reolaeth fewnol". Rwyf yn adrodd os nad yw'n bodloni gofynion y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

### Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan Estyn wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Estyn, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn i mi allu cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed trwy gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall, a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi arfarnu a yw'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y datganiadau ariannol yn ddigonol at ei gilydd.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ar 31 Mawrth 2003 a gwerth net alldro'r adnoddau, yr adnoddau a ddefnyddiwyd at amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben, a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau a wneir yn ôl y gofynion hynny gan y Trysorlys; ac

- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**11 Rhagfyr 2003**

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol,**
**3 – 4 Plas y Parc,**
**CAERDYDD CF10 3DP**

## Atodlen 1
## Datganiad o Alldro'r Adnoddau
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003*

Atodlen 1

| | 2002-03 Amcan | | | 2002-03 Alldro | | | | 2001-02 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant gros | Incwm | CYFANSWM NET | Gwariant gros | Incwm | CYFANSWM NET | Cyfanswm net alldro o gymharu â'r Amcan arbediad/ (dros ben) | Alldro'r flwyddyn flaenorol |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau Gweinyddol | 6,745 | 0 | 6,745 | 5,524 | 0 | 5,524 | 1,221 | 5,673 |
| Costau Rhaglenni | 4,518 | 0 | 4,518 | 3,034 | (5) | 3,029 | 1,489 | 2,712 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **11,263** | **0** | **11,263** | **8,558** | **(5)** | **8,553** | **2,710** | **8,385** |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | | **11,128** | | | **8,673** | **2,455** | **8,912** |

| **Cysoniad adnoddau yn erbyn gofynion arian parod net** | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm net alldro'r adnoddau** | | 11,263 | 8,553 | 2,710 | 8,385 |
| Caffaeliadau asedau sefydlog | 7 | 0 | 181 | (181) | 544 |
| Cymwysiadau croniadau: | | | | | |
| Eitemau heblaw am arian parod | 3&4 | (135) | (147) | 12 | (88) |
| Newidiadau yn y cyfalaf gweithio heblaw am arian parod | 8 | 0 | (1) | 1 | (14) |
| Defnyddio'r ddarpariaeth | 12 | 0 | 87 | (87) | 85 |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | **11,128** | **8,673** | **2,455** | **8,912** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 2
## Datganiad o'r Costau Rhedeg
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003*

| | *Nodyn* | **2002-2003** | | 2001-2002 |
|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 |
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Costau staff | 2 | | **4,072** | 3,581 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | | **1,452** | 2,092 |
| **Costau gweinyddol gros** | | | **5,524** | 5,673 |
| Incwm gweithredol | | | - | - |
| **Costau gweinyddol net** | | | **5,524** | 5,673 |
| **Costau rhaglenni** | | | | |
| Gwariant | 4 | **3,034** | | 2,715 |
| Llai: incwm | 5 | **(5)** | | (3) |
| **Costau rhaglenni net** | | | **3,029** | 2,712 |
| **Cost rhedeg net** | 6 | | **8,553** | 8,385 |
| **Alldro adnoddau net** | 6 | | **8,553** | 8,385 |

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau sy'n parhau.

Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o'r Costau Rhedeg.

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 3
## Mantolen
*ar 31 Mawrth 2003*

| | Nodyn | **31 Mawrth 2003** | | 31 Mawrth 2002 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | £000 | £000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | | **275** | | 284 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 9 | **158** | | 155 | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 10 | **69** | | 587 | |
| | | **227** | | 742 | |
| **Credydywr:** symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 11 | **(1,006)** | | (1,002) | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol net** | | | **(779)** | | (260) |
| **Cyfanswm asedau, llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(504)** | | 24 |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 12 | | **(205)** | | (287) |
| **RHWYMEDIGAETHAU NET** | | | **(709)** | | (263) |
| **Ecwiti'r trethdalwr** | | | | | |
| Y gronfa gyffredinol | 13 | | **(709)** | | (263) |
| | | | **(709)** | | (263) |

**Susan Lewis**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo**
**28 Tachwedd 2003**

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 4
## Datganiad Llif Arian
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003*

| | Nodyn | 2002-2003 £000 | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|---|
| Llif net arian parod allan o weithgareddau gweithredu | | **(8,492)** | (8,368) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddi ariannol | | **(181)** | (544) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | | **8,155** | 8,440 |
| **Gostyngiad mewn arian parod** | 10 | **(518)** | (472) |

### Cysoni cost gweithredu â'r llif arian o weithgareddau gweithredu

| | Nodyn | 2002-2003 £000 | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost net gweithgareddau gweithredu am y flwyddyn** | | **8,553** | 8,385 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heblaw arian parod | | | |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | **(194)** | (135) |
| Costau rhaglenni | 4 | **47** | 47 |
| Addasiadau ar gyfer symud cyfalaf gwaith heblaw am arian parod | 8 | **(1)** | (14) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 12 | **87** | 85 |
| **Llif net arian parod allan o weithgareddau gweithredu** | | **8,492** | 8,368 |

### Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddi ariannol

| | 2002-2003 £000 | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|
| Taliadau i brynu asedau sefydlog diriaethol | **181** | 544 |
| Arian a gafwyd o werthu asedau sefydlog | - | - |
| **Llif net arian parod allan o weithgareddau buddsoddi** | **181** | 544 |

### Dadansoddiad o gyllid a chysoni â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2002-2003 £000 | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|---|
| Oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 13 | **8,155** | 8,440 |
| Gostyngiad mewn arian parod | 10 | **518** | 472 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **8,673** | 8,912 |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Atodlen 5
## Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion yr Adran
*am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003*

**Nod:** Codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a rhoi cyngor annibynnol.

| | 2002-2003 | | | 2001-2002 |
|---|---|---|---|---|
| | **Gros £000** | **Incwm £000** | **Net £000** | **Net £000** |
| **Amcanion** | | | | |
| **2002-2003** | | | | |
| 1. Arolygu darparwyr unigol addysg a hyfforddiant, a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru, at safon uchel. | 7,416 | (5) | 7,411 | 6,683 |
| 2. Rhoi cyngor annibynnol a chadarn, ar sail tystiolaeth arolygiadau, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gynorthwyo wrth ffurfio ac arfarnu polisi addysg a hyfforddiant. | 1,142 | 0 | 1,142 | 1,702 |
| **Costau rhedeg net** | **8,558** | **(5)** | **8,553** | **8,385** |

*Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 27 yn rhan o'r cyfrifon hyn*

## Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

### 1. Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r *Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Disgrifir isod y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Estyn. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

1.1 *Arferion cyfrifo*

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a'u haddasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i Estyn.

1.2 *Asedau sefydlog diriaethol*

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes defnyddiol ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod gwerth yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur, a chost gyfredol asedau newydd yn eu lle llai dibrisiant.

1.3 *Dibrisiant*

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog diriaethol trwy randaliadau cyfartal dros yr oes ddefnyddiol yr amcangyfrifir sydd ganddynt. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Cyfarpar TG | 3-5 mlynedd |
| • Dodrefn a Ffitiadau | 5 mlynedd |
| • Offer Swyddfa | 5 mlynedd |

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o'r Costau Rhedeg yn y flwyddyn y digwyddodd.

1.4 *Incwm Gweithredol*

Incwm gweithredol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn. Mae'n cynnwys ffïoedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd yn bennaf (ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol) ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbyniadau sy'n caniatáu i Estyn gadw derbyniadau felly.

1.5 *Gwariant gweinyddol*

Dadansoddir y Datganiad o'r Costau Rhedeg rhwng costau gweinyddol a chostau rhaglenni. Mae costau gweinyddu yn dangos costau rhedeg Estyn fel y'u diffinnir dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm cysylltiedig.

1.6 *Gwariant rhaglenni*

Mae costau rhaglenni'n adlewyrchu taliadau heb fod yn daliadau gweinyddol gan Estyn. Taliadau i drydydd parti dan gontract ar gyfer gwaith arolygu yw'r rhain yn bennaf. Caiff unrhyw symiau sydd yn dal heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn am arolygiadau Tymor y Gwanwyn eu cynnwys dan credydwyr. Caiff unrhyw gontractau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer arolygiadau sydd i'w cynnal yn y tymhorau ysgol dilynol eu datgelu fel ymrwymiadau yn y nodiadau i'r cyfrifon.

1.7 *Tâl cyfalaf*

Mae credyd, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Estyn, wedi'i gynnwys yn y costau rhedeg a'r costau rhaglenni. Mae'r credyd wedi'i gyfrifo yn ôl cyfradd safonol y llywodraeth o 6 y cant mewn termau real ar bob ased llai rhwymedigaethau, ac eithrio balansau arian parod a gedwir yn Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM.

1.8 *Treth ar Werth*

Mae rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu'i gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu fod TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

1.9 *Pensiynau*

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 2c. Nid yw elfennau budd-daliadau'r cynlluniau a ddiffinnir yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â budd-daliadau dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Mae'r PGPGS yn rhwymedig i dalu budd-daliadau yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau'r cynlluniau a ddiffinnir, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

1.10 *Costau ymadael yn gynnar*

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol budd-daliadau sydd ar ben budd-daliadau arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi.

1.11 *Prydlesi gweithredu*

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o'r Costau Rhedeg mewn symiau cyfartal dros gyfnod y prydles.

## 2. Nifer y staff a chostau staff

a) Mae costau staff yn cynnwys:

| | **2002-2003 £000** | 2001-2002 £000 Ailddosbarthedig |
|---|---|---|
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Cyflogau | **3,235** | 2,760 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **268** | 242 |
| Costau pensiwn arall | **515** | 449 |
| **Cyfanswm Costau Net** | **4,018** | 3,451 |
| Ynghyd â: | | |
| Eilyddion | **-** | 40 |
| Staff Asiantaethau | **54** | 90 |
| **Cyfanswm** | **4,072** | 3,581 |

Nid yw Estyn yn talu costau staff gweinidogol.

b) Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2002-2003** | 2001-2002 Ailddatganedig |
|---|---|---|
| Amcan 1 | **73.4** | 69.8 |
| Amcan 2 | **17.3** | 16.4 |
| Cyfanswm Nifer | **90.7** | 86.2 |

Mae'r dosbarthiad o gyfanswm niferoedd y staff i amcanion wedi'i wneud gyda chyfeiriad at yr amser cymharol a dreuliwyd gan staff Estyn ar weithgareddau craidd.

c) Mae hawliau cyflog a phensiwn Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn Estyn fel a ganlyn:

| | **Oed** | **Ystod cyflog (yn ôl y diffiniad isod) £000** | **Cynnydd go iawn mewn pensiwn yn 60 £000** | **Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth £000** | **Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)** | **Cyfraniad y cyflogwr i'r cyfrif pensiwn partneriaeth gan gynnwys yswiriant budd-dal risg – i'r £100 agosaf** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Susan Lewis – *Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* | **55** | **80-85** | 2.5-5 | 30-35 | 0 | 0 |

Mae cyfanswm y pensiynau cronedig yn ymwneud â PCSPS yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd i'r cynllun.

Yn unol â SARh 12/00, nid yw gweddill aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi rhoi caniatâd i ddatgelu manylion eu hoed, eu tâl a'u pensiwn. Mae eu cyflogau nhw ym Mand Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil (£51,250 - £107,625).

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y taliadau bonws sy'n daladwy am berfformiad, hawl wedi'i chadw i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, a lwfansau swyddfeydd preifat. Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli fuddion mewn nwyddau.

Mae'r PGPGS yn gynllun budd-dâl diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei ariannu, ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 1999. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2002-03, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £514,811 yn daladwy i'r PCSPS (2001-02 - £449,503) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 12 i 18.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd y cyfraddau yn aros yr un fath y flwyddyn nesaf, yn amodol ar ailbrisio'r bandiau cyflog. Bydd cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun llawn gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae cyfraddau'r cyfraniadau'n adlewyrchu buddion fel byddant yn cronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gallai gweithwyr sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Telir cyfraniadau cyflogwyr i un neu fwy o banel o bedwar o ddarparwyr pensiwn budd-ddeiliaid a bennir. Telir cyfraniadau cyflogwyr yn ôl oed, gan amrywio o 3 i 12.5 y cant o dâl pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau atebol i gyfraniadau gweithwyr hyd at 3 y cant o'r tâl pensiynadwy. Yn ogystal, mae cyfraniadau cyflogwyr o 0.8 y cant o dâl pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol os yw aelod yn marw mewn gwasanaeth a bod y gweithwyr hyn yn ymddeol oherwydd afiechyd.

## 3. Costau gweinyddol eraill

| | **2002-2003 £000** | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: | | |
| - llogi llungopïwyr | **6** | 6 |
| - adeiladau | **421** | 310 |
| Costau adeiladau eraill | **91** | 506 |
| TG a thelathrebu | **168** | 544 |
| Gwasanaethau canolog Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **59** | 53 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **258** | 255 |
| Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | **19** | 19 |
| Gwariant arall | **236** | 264 |
| Eitemau heblaw am arian parod: | | |
| - dibrisiant | **190** | 135 |
| - cost credyd cyfalaf | **(1)** | (16) |
| - darpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar | **5** | 12 |
| - colled wrth waredu asedau ssefydlog diriaethol | **0** | 4 |
| | **1,452** | 2,092 |

## 4. Costau net rhaglenni

| | **2002-03** | | **2001-02** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Gwariant cyfredol** | | | | |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | **312** | | | 209 |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | **2,661** | | | 2,459 |
| Arolygiadau meithrinfeydd a chostau cysylltiedig | **15** | | | 15 |
| Gwasanaethau gwybodaeth | **83** | | | 72 |
| Cynadleddau byr a chyrsiau | **10** | | | 7 |
| | | **3,081** | | 2,762 |
| Eitemau heblaw am arian parod: | | | | |
| - cost credyd cyfalaf | | **(47)** | | (47) |
| | | **3,034** | | 2,715 |
| Llai: incwm rhaglenni (Nodyn 5) | | **(5)** | | (3) |
| | | **3,029** | | 2,712 |

## 5. Incwm rhaglenni

| | **2002-2003 £000** | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm rhaglenni** | | |
| - ffïoedd cofrestru | **5** | 3 |
| **Cyfanswm** | **5** | 3 |

Gan fod yr incwm a dderbynnir o ffïoedd cofrestru yn fach a'i fod yn gallu amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, nid yw'n cael ei gynnwys yn y ffigyrau Amcan yn Atodlen 1.

## 6. Cysoni costau rhedeg net â chyfanswm rheoli a'r alldro adnoddau net

| | **2002-2003 £000** | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|
| Costau rhedeg net | **8,553** | 8,385 |
| Incwm gweithredol heblaw dyraniadau cymorth | - | - |
| **Alldro adnoddau net** | **8,553** | 8,385 |

Cyfanswm y gwariant a'r incwm a nodir yn y Datganiad o Gostau Rhedeg (Atodlen 2) yw'r costau rhedeg net. Cyfanswm yr elfennau hynny o'r gwariant a'r incwm sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Senedd yw'r alldro adnoddau net.

## 7. Asedau sefydlog

| | Cyfarpar TG £000 | Celfi a Ffitiadau £000 | Offer Swyddfa £000 | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 192 | 239 | 128 | 559 |
| Ychwanegiadau | 177 | 0 | 4 | 181 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **369** | **239** | **132** | **740** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 124 | 97 | 54 | 275 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 117 | 47 | 26 | 190 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **241** | **144** | **80** | **465** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **128** | **95** | **52** | **275** |
| Ar 31 Mawrth 2002 | **68** | **142** | **74** | **284** |

## 8. Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw am arian parod

| | **2002-2003 £000** | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn dyledwyr | **3** | 27 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn credydwyr | **(4)** | 468 |
| | **(1)** | 495 |
| Symudiad mewn credydwyr cyfalaf | **0** | (509) |
| | **(1)** | (14) |

## 9. Dyledwyr

| | **31 Mawrth 2003 £000** | 31 Mawrth 2002 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | **29** | 46 |
| Trethi | **30** | 22 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **99** | 87 |
| | **158** | 155 |

## 10. Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | **31 Mawrth 2003 £000** | 31 Mawrth 2002 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **587** | 1,059 |
| Arian parod net allan | **(518)** | (472) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **69** | 587 |

Mae Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM (STC) yn darparu gwasanaeth bancio cyfrif cyfredol. Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth:

| | **31 Mawrth 2003 £000** | 31 Mawrth 2002 £000 |
|---|---|---|
| Balansau yn yr STC | **70** | 585 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | **(1)** | 2 |
| | **69** | 587 |

## 11. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **31 Mawrth 2003 £000** | 31 Mawrth 2002 £000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | **847** | 759 |
| Credydwyr eraill | **131** | 211 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **28** | 32 |
| | **1,006** | 1,002 |

## 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Costau ymadael yn gynnar:** Rhwymedigaethau uwchlaw budd-daliadau pensiwn arferol cyn-weithwyr sydd wedi ymddeol yn gynnar.

| | **£000** |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2002 | 287 |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 5 |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (87) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | **205** |

## 13. Cysoni'r gost rhedeg net â newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | **2002-2003 £000** | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|
| **Cost rhedeg net ar gyfer y flwyddyn (Atodlen 2)** | **(8,553)** | (8,385) |
| Cyllid net oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | **8,155** | 8,440 |
| | **(398)** | 55 |
| Addasiadau cost tybiannol: | | |
| - cost credyd cyfalaf | **(48)** | (63) |
| **(Gostyngiad) net yn y gronfa gyffredinol** | **(446)** | (8) |
| Cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill | **(263)** | (255) |
| **Cronfa gyffredinol ar 31 Mawrth (Atodlen 3)** | **(709)** | (263) |

## 14. Ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol

| | **2002-2003 £000** | | 2001-2002 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Ar 31 Mawrth 2003, roedd Estyn wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesi gweithredol yn dod i ben: | | | | |
| - cyn pen blwyddyn | - | - | - | - |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | - | 1 | - | 4 |
| - ar ôl pum mlynedd | 211 | - | 273 | - |
| | **211** | **1** | **273** | **4** |

## 15. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf eraill ar 31 Mawrth 2003.

## 16. Ymrwymiadau eraill

Mae Estyn wedi cytuno ar gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredol) ar gyfer gwaith arolygu gwerth £772,669 ar 31 Mawrth 2003.

## 17. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2003.

## 18. Nodyn i Atodlen 5

Mae cost credyd cyfalaf Estyn wedi'i rhannu rhwng amcanion ar sail costau gros cysylltiedig.

Mae gwariant rhaglenni wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

| | **2002-2003 £000** | 2001-2002 £000 |
|---|---|---|
| **2002-03** | | |
| **Gwariant Rhaglenni** | | |
| 1. Arolygu darparwyr unigol addysg a hyfforddiant, a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru, at safon uchel. | **2,942** | 2,636 |
| 2. Rhoi cyngor annibynnol a chadarn, ar sail tystiolaeth arolygiadau, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gynorthwyo wrth ffurfio ac arfarnu polisi addysg a hyfforddiant. | **92** | 79 |
| Costau rhaglenni | **3,034** | 2,715 |

Mae costau gweinyddu wedi'u priodoli i amcanion yn unol â'r defnydd arfaethedig o adnoddau yn ystod y flwyddyn. Mae incwm wedi'i ddyrannu i amcanion yn yr un cyfrannau â gwariant cysylltiedig.

## 19. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Roedd nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r sefydliadau Llywodraeth canlynol yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig:

Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM
Y Comisiwn Archwilio

Nid oes unrhyw un o'r staff rheoli allweddol na phartïon eraill cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 20. Offerynnau Ariannol

Mae'r Safon Adrodd Ariannol 13 (SAA 13), *Deilliadau ac Offerynnau Ariannol Eraill,* yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu rôl offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau i endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol ei weithgareddau a'r ffordd y caiff adrannau'r llywodraeth eu hariannu, nid yw Estyn wedi'i amlygu i'r graddau o risg ariannol a wynebir gan endidau busnes. Yn ogystal, mae gan offerynnau ariannol rôl llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg na'r hyn a fyddai'n arferol ar gyfer y cwmnïau cofrestredig y mae SAA 13 yn fwyaf perthnasol iddynt. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol Estyn eu creu gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac nid oes cyfrifoldeb arnynt i newid y risgiau a wynebir gan yr adran wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

### Risg Hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu yn y lle cyntaf ar nawdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ei anghenion adnoddau, ac nid yw felly'n wedi'i amlygu i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg Cyfradd Llog ac Arian Tramor

Nid yw Estyn yn dal unrhyw adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu cyfenwi mewn sterling, felly nid yw wedi'i amlygu i unrhyw risg cyfradd llog na risg arian tramor.